WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o Wasanaethau Hamdden – **Cyngor Sir Fynwy**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1640A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Fynwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015].

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan dîm a oedd yn cynnwys Charlotte Owen, Allison Rees, rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion cenedlaethol yn 2015 ac mae wedi ystyried a yw darparu ei wasanaeth hamdden yn cynnig gwerth am arian.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 6

Mae gan y Cyngor weledigaeth hirsefydlog ar gyfer ei wasanaethau hamdden ond mae'n dal i ddatblygu cynllun strategol i wireddu ei weledigaeth 6

Ystyriodd y Cyngor fodelau cyflawni amgen ar gyfer ei wasanaeth hamdden, ond nid oedd y broses hon bob amser yn darparu gwybodaeth ariannol ddigonol ac amserol i aelodau i'w helpu i wneud penderfyniadau 7

Bu'r Cyngor yn ymwneud yn rhagweithiol â'r aelodau wrth arfarnu opsiynau cyflawni gwahanol ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n cryfhau ei fframwaith perfformiad ymhellach 10

Atodiadau

Atodiad 1 – Swyddfa Archwilio Cymru 2015 Cyflawni â llai - argymhellion gwasanaethau hamdden 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Mae'r adolygiad hwn yn ddilyniant i adroddiad cenedlaethol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2015 – Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden.[1] At ddibenion yr adolygiad hwn, defnyddiwn y term gwasanaethau hamdden y cyngor i olygu gwasanaethau chwaraeon a hamdden a ddarperir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, wedi'u tanysgrifennu gan gytundeb neu gontract partneriaeth). Nid yw hyn ond yn ymdrin â darparu a rheoli canolfannau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys cyfleusterau dan do ac awyr agored a chanolfannau gwlyb a sych ar safleoedd ysgolion. Nid yw ein diffiniad yn cwmpasu nac yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth, gwasanaethau llyfrgell, parciau/mannau agored, amgueddfeydd/treftadaeth na'r celfyddydau.

2 Mae Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) yn rheoli ac yn darparu ei wasanaethau hamdden. Yn 2014, cymeradwyodd y Cabinet gomisiynu ymgynghorydd allanol i gwblhau adolygiad o'r opsiynau ar gyfer gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn y dyfodol. Yn ystod adolygiad yr ymgynghorydd allanol, nodwyd bod gwasanaethau diwylliannol yn gorgyffwrdd â llawer o'r gwasanaethau twristiaeth, hamdden a diwylliant ehangach. Yn hytrach na gweld gwasanaethau diwylliannol ar eu pen eu hunain, ehangodd y Cyngor yr adolygiad i gynnwys twristiaeth a hamdden.

3 Rhwng 2016-2018, cafodd yr Aelodau achos busnes strategol amlinellol, achos busnes terfynol, fframwaith rheoli perfformiad drafft a threfniadau llywodraethu arfaethedig ar fodel cyflawni newydd arfaethedig ar gyfer y gwasanaethau twristiaeth, diwylliant, hamdden ac ieuenctid.

4 Ym mis Ebrill 2019, derbyniodd y Cyngor adroddiad i gymeradwyo'r model cyflawni yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hamdden, ynghyd â gwasanaethau twristiaeth, diwylliant ac ieuenctid. Cymeradwyodd y Cyngor gadw gwasanaethau hamdden yn fewnol gydag ymrwymiad i raglen sylfaenol o adnewyddu a thrawsnewid.

5 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym yn ystod mis Awst a mis Medi 2019.

[1] http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden

## Yr hyn a ganfuom

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: **A all y Cyngor sicrhau bod darparu ei wasanaethau hamdden yn cynnig gwerth am arian?**

7 Yn gyffredinol, canfuom: **Fod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion cenedlaethol yn 2015 ac mae wedi ystyried a yw darparu ei wasanaeth hamdden yn cynnig gwerth am arian.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y Cyngor weledigaeth hirsefydlog ar gyfer ei wasanaethau hamdden ond mae'n dal i ddatblygu cynllun strategol i wireddu ei weledigaeth;
- Ystyriodd y Cyngor fodelau cyflawni amgen ar gyfer ei wasanaeth hamdden, ond nid oedd y broses hon bob amser yn darparu gwybodaeth ariannol ddigonol ac amserol i aelodau i'w helpu i wneud penderfyniadau; a
- Bu'r Cyngor yn ymwneud yn rhagweithiol â'r aelodau wrth arfarnu opsiynau cyflawni gwahanol ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n cryfhau ei fframwaith perfformiad ymhellach.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion cenedlaethol yn 2015 ac mae wedi ystyried a yw darparu ei wasanaeth hamdden yn cynnig gwerth am arian

### Mae gan y Cyngor weledigaeth hirsefydlog ar gyfer ei wasanaethau hamdden ond mae'n dal i ddatblygu cynllun strategol i wireddu ei weledigaeth

8 Yn 2014, datblygodd y Cyngor weledigaeth a chenhadaeth ar gyfer Hamdden cyn archwilio modelau cyflawni amgen ar gyfer y gwasanaeth. Ar y pryd, nid oedd strategaeth hamdden i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth.

9 Yn 2014, gweledigaeth y Cyngor ar gyfer hamdden oedd 'Creu Sir Fynwy Egnïol ac Iach', a ategwyd gan bedair blaenoriaeth:

- Hybu iechyd a lles;
- Sicrhau’r lefelau cyfranogiad uchaf posibl;
- Cymhelliant Masnachol drwy arloesi a menter; a
- Cyfathrebu ac ymgysylltu.

10 Adolygodd y Cyngor ei weledigaeth hamdden wrth iddo ystyried modelau cyflawni amgen. Ym mis Mai 2017, ymgysylltodd y Cyngor â staff perthnasol mewn sawl gweithdy i drafod a chytuno ar genhadaeth a gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol. Canlyniad yr ymgynghoriad oedd darparu gwasanaeth a fyddai'n 'Cyfoethogi Bywydau Pobl a chreu Lleoedd Bywiog'. Ar adeg ein gwaith maes, mae'r weledigaeth hon yn parhau.

11 Ym mis Ebrill 2019, penderfynodd y Cyngor gadw gwasanaethau hamdden yn fewnol gydag ymrwymiad i adnewyddu a thrawsnewid y gwasanaeth. Ym mis Medi 2019, cymeradwywyd cynllun busnes MonLife[2] (2020-2025) a Strategaeth Fasnach a Buddsoddi MonLife gan y Cyngor. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Ebrill 2019, comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i gynhyrchu strategaeth hamdden ddrafft yn seiliedig ar drawsnewid y gwasanaeth. Roedd strategaeth ddrafft ar fin cael ei llunio ar adeg ein gwaith maes.

[2] Mae MonLife yn rhan o Gyngor Sir Fynwy ac yn darparu gwasanaethau hamdden, ieuenctid ac addysg awyr agored, seilwaith gwyrdd a chefn gwlad, twristiaeth, datblygu cyrchfannau, y celfyddydau, amgueddfeydd ac atyniadau.

## Ystyriodd y Cyngor fodelau cyflawni amgen ar gyfer ei wasanaeth hamdden, ond nid oedd y broses hon bob amser yn darparu gwybodaeth ariannol ddigonol ac amserol i aelodau i'w helpu i wneud penderfyniadau

12 Yn 2014, dechreuodd y Cyngor archwilio modelau cyflawni amgen ar gyfer ei wasanaethau hamdden. Un o'r prif sbardunau wrth ystyried modelau cyflawni amgen oedd gwneud arbedion ariannol. O 2012-13 i 2015-16, gweithredodd y Cyngor nifer o newidiadau o fewn y gwasanaeth hamdden i helpu i gyflawni £1.65m o arbedion refeniw. Fodd bynnag, credai'r Cyngor ei fod wedi cyrraedd terfyn yr arbedion y gellid eu sicrhau o faes hamdden. Yn ogystal, roedd gan yr holl asedau a oedd yn gysylltiedig â'r broses model cyflawni amgen hon ôl-groniad cynnal a chadw o £4.78m (nid dim ond y canolfannau hamdden).

13 Yn 2015, comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i ymgymryd â phroses diwydrwydd dyladwy ac ystyriodd y canlynol:

- Cynlluniau gwasanaeth a chyllidebau;
- Arolygon galw cudd ar gyfer gwasanaethau hamdden;
- Datblygu cynulleidfaoedd a chynlluniau busnes ar gyfer atyniadau i ymwelwyr;
- Sgiliau staff a dadansoddi bylchau;
- Asesiad o oblygiadau adnoddau dynol gan gynnwys TUPE a threfniadau pensiwn yn y dyfodol;
- Crynodeb o'r goblygiadau TAW a threth;
- Asesiad o strwythurau cyfreithiol a threfniadau llywodraethu cysylltiedig;
- Asesiad Cymorth Gwladwriaethol;
- Asesiad o'r biblinell twf a buddsoddi a chynhyrchu incwm;
- Goblygiadau trosglwyddo asedau/prydlesi; a
- rhaglen lawn o ymgysylltu â staff a defnyddwyr Gwasanaeth.

14 Gwnaeth yr ymgynghorydd allanol nodi ac ystyried pedwar o Opsiynau Cyflawni posibl ar gyfer y Gwasanaeth:

- Gwneud Dim Byd;
- Trawsnewid y Gwasanaethau 'yn fewnol';
- Symud y Gwasanaethau i Fodel Cyflawni Amgen (ADM); a
- Allanoli'r gwasanaethau i drydydd parti: a) Allanoli'r gwasanaethau i weithredwr sector preifat neu (b) Ymddiriedolaeth Elusennol sy'n bodoli eisoes.

15 Er i'r achos amlinellol strategol i Gyd-bwyllgor Dethol ym mis Medi 2016 a'r Cabinet ym mis Hydref 2016 ddarparu naratif ar fanteision ac anfanteision pob opsiwn cyflawni posibl yn erbyn meini prawf asesu, nid oedd unrhyw fatrics/pwysoliad wedi'i gymhwyso i bob meini prawf neu 'sgôr derfynol' i gefnogi cyfiawnhad o'r model cyflawni a ffafriwyd. Roedd hefyd ddiffyg canlyniadau ariannol penodol neu asesiad ariannol i gefnogi'r model cyflawni a ffafriwyd a modelau eraill a oedd yn cael eu hystyried. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys modelu ariannol rhagamcanol, gan gynnwys:

- cyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf;
- cynhyrchu incwm gwell;
- lleihau 'cymhorthdal' y cyngor;
- dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;
- cyfraniad gwasanaethau hamdden i rôl iechyd cyhoeddus ehangach y cyngor; neu
- yr effaith y byddai'r gwahanol opsiynau hyn yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

16 Argymhelliad yr ymgynghorydd allanol, gan ddefnyddio'r gwaith a wnaed, oedd sefydlu model amgen newydd ar gyfer y Gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid (TLCY) yn seiliedig ar yr arbedion ariannol a'r potensial o ran cynhyrchu incwm. Cafodd Cyd-bwyllgor Dethol adroddiad ym mis Medi 2016 ar yr opsiynau cyflawni arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Cododd y Pwyllgor bryderon ynglŷn â lefel y manylder a ddarparwyd iddynt, gan awgrymu nad oedd yn helpu'r aelodau i ddod i gasgliad pendant. Roedd gan y Pwyllgor amheuon ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu'r gwaith ymhellach a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r model ei hun.

17 Ym mis Hydref 2016, cytunodd y Cabinet i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu achos busnes amlinellol drafft ar gyfer opsiwn cyflawni newydd arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid i'w ystyried ymhellach gan Aelodau ac i barhau â'r broses o ymgynghori â staff, y gymuned a defnyddwyr gwasanaeth.

18 Fodd bynnag, aeth y Cyngor ati i asesu'r pedwar opsiwn cyflawni. Ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2016, arfarnodd tîm prosiect y Cyngor y pedwar opsiwn yn erbyn meini prawf amrywiol. Sgoriwyd y meysydd canlynol a rhoddwyd pwysoliad ynghlwm wrth bob un:

- Ansawdd
- Effeithlonrwydd Gweithredol
- Masnachadwyedd
- Y Gymuned
- Atebolrwydd a Llywodraethu
- Adnoddau a Buddsoddi

- Enw Da ac Ystyriaethau Gwleidyddol
- Rheoli Risg
- Addysg
- Amddiffyn Pobl sy’n agored i niwed
- Cefnogi Menter
- Cynnal Gwasanaethau sy'n Hygyrch yn Lleol

19 Yn ogystal â'r asesiad ansoddol uchod, ystyriodd yr achos busnes amlinellol unrhyw:

- Gostau gweithredu
- Pensiynau
- Ffi Rheoli a Maint yr Elw
- Costau Gwasanaethau Cymorth
- Buddsoddi cyfalaf
- Rhyddhad ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR)
- Rhyddhad TAW

20 Ym mis Mawrth 2017, adolygodd y Cyngor asesiad o bob un o'r pedwar model cyflawni. Arweiniodd canlyniad y sgorio at 89.4 ar gyfer ADM, 66.0 ar gyfer Trawsnewid yn Fewnol, 49.4 i allanoli i drydydd parti a 35.0 i wneud dim byd. Rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth i ddatblygu dau opsiwn: model cyflawni amgen (ADM) a thrawsnewid yn fewnol ar gyfer achos busnes llawn.

21 Darparodd cyflwyniad i Gyd-bwyllgor Dethol ym mis Ionawr 2018 ragor o ddata ariannol ar bwysau, rhyddhad NNDR, materion TAW, chwyddiant, incwm newydd, costau ychwanegol, cyllid cyfalaf a chronfeydd wrth gefn dros gyfnod o bum mlynedd.

22 Ym mis Ionawr 2018, cymeradwyodd y Cabinet yr achos busnes terfynol i fwrw ymlaen â model cyflawni amgen ar gyfer ei ganolfannau hamdden. Ym mis Chwefror 2018, cytunodd y Cyngor y dylid tynnu £155,000 o'r gronfa fuddsoddi flaenoriaethol i ariannu gweithgaredd 'cychwyn' ar gyfer yr ADM. Ym mis Mehefin 2018, derbyniodd y Cabinet adroddiad cynnydd ar sefydlu'r ADM. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys y camau proses yr oedd angen eu cwblhau cyn cymeradwyaeth derfynol y Cyngor i sefydlu'r ADM.

23 Ym mis Gorffennaf 2018 yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Archwilio, cymeradwyodd y Cyngor y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer yr ADM a dechreuodd ar y broses recriwtio gysgodol i gael Cyfarwyddwyr Cwmni.

24 Ym mis Rhagfyr 2018, roedd y Cyngor i fod i ystyried cytundeb rheoli ac ariannu pum mlynedd a dogfennaeth rheoli contractau arall. Bu oedi i'r penderfyniad hwn wrth i'r Cyngor geisio cyngor cyfreithiol allanol. Ym mis Ionawr 2019, cynhaliodd y cynghorwyr cyfreithiol allanol ddadansoddiad pellach o oblygiadau cyfreithiol darparu gwasanaethau hamdden drwy fodel cyflawni amgen gan ystyried:

- y cytundeb grant drafft;
- gwasanaethau cymorth sydd eu hangen rhwng y Cyngor ac opsiwn cyflawni amgen;
- dadansoddiad risg o'r cyfleoedd masnachol arfaethedig a gynhwyswyd yn yr achos busnes; a
- goblygiadau o ran cyflogaeth a phensiwn.

25 Daeth y cynghorwyr cyfreithiol allanol i'r casgliad bod y sefyllfa ariannol, gyfreithiol a threthiant wedi newid ers asesu'r opsiynau cyflenwi amgen cychwynnol ym mis Mawrth 2017. O'r herwydd, byddai manteision ariannol model cyflawni amgen ar gyfer gwasanaethau hamdden ond yn cael budd ymylol, yn rhannol oherwydd dyfarniad Ealing ym mis Gorffennaf 2017.[3] O ystyried y rhan bwysig sydd gan hamdden wrth gyfrannu at amcanion lles Sir Fynwy, roedd y Cyngor hefyd yn pryderu y gallai fod yn llai abl i ddylanwadu ar yr agenda lles o dan fodel cyflawni amgen.

26 Ym mis Ebrill 2019, penderfynodd y Cyngor beidio â chyflwyno model cyflawni amgen, ond yn hytrach i drawsffurfio gwasanaethau hamdden yn fewnol. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, cafodd yr aelodau drwy'r cydbwyllgor dethol, y Cabinet a'r Cyngor nifer o adroddiadau wrth i broses y model cyflawni amgen ddatblygu.

27 Mae'r Cyngor yn nodi y bydd ei fodel cyflawni mewnol newydd 'yn fwy hyblyg a chanddo fwy o ogwydd masnachol, gan barhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen a'u heisiau'. Er mwyn i'r model mewnol newydd fod yn fwy masnachol o'i gymharu â rheoli a darparu hamdden ar hyn o bryd, bydd rolau newydd yn cael eu creu: Rheolwr Marchnata, Rheolwr Grŵp ar gyfer Atyniadau a Chyfarwyddwr Cyllid.

## Bu'r Cyngor yn ymwneud yn rhagweithiol â'r aelodau wrth arfarnu opsiynau cyflawni gwahanol ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n cryfhau ei fframwaith perfformiad ymhellach

28 Rhoddwyd gwybodaeth yn ddigonol i'r aelodau drwy'r broses o adolygu'r model cyflawni amgen. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgor Dethol, bu swyddogion y Cyngor ac ymgynghorwyr allanol yn rhoi gwybodaeth gyfredol i aelodau drwy gyfrwng sesiynau briffio.

29 Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran sicrhau y bydd aelodau yn arfarnu ac yn gwerthuso'r penderfyniad i drawsnewid gweithgareddau hamdden yn fewnol. Darparodd yr adroddiad diweddaru ar y model cyflawni amgen i'r Cyngor ar 11 Ebrill 2019 feini prawf i aelodau gynnal arfarniad chwe mis o benderfyniad y Cyngor i bennu,

[3] Yn dilyn pednerfyniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) ym Mwrdesitref Ealing yn Llundain, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn y gellir trin rhai cyflenwadau o wasanaethau chwaraeon a wneir gan awdurdodau lleol fel rhai sydd wedi'u heithrio rhag TAW.

er enghraifft, a yw'r canlyniad a ddymunir yn cael ei gyflawni ac a yw'r penderfyniad yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

30 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau sy'n ymwneud â hamdden a roddwyd i aelodau wedi canolbwyntio ar broses y model cyflawni amgen. Nawr bod y Cyngor wedi penderfynu ar reoli hamdden yn y dyfodol, mae aelodau wedi gofyn am fwy o fanylion perfformiad gan y gwasanaethau hamdden. Ar adeg ein gwaith maes, roedd swyddogion yn penderfynu pa lefel a pha lefel o fanylder am wybodaeth am berfformiad sydd angen eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad i aelodau yn y dyfodol.

31 Gwnaeth Aelodau'r Cabinet sylwadau cadarnhaol ar argaeledd gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau hamdden yn ogystal ag argaeledd uwch swyddogion i drafod unrhyw bryderon gyda'r holl aelodau. Mae'r aelod perthnasol o'r Cabinet yn cyfarfod bob pythefnos gyda'r Pennaeth Hamdden i drafod perfformiad ariannol a gweithredol. Maent hefyd yn trafod cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella gwasanaeth yn chwarterol.

32 Ym mis Medi 2018, derbyniodd y Pwyllgor Archwilio y Fframwaith Perfformiad a Gwerthuso drafft a fyddai'n sail i fframwaith rheoli busnes ar gyfer model cyflawni amgen. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar benderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu model cyflawni amgen.

33 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Ebrill 2019 i drawsnewid hamdden yn fewnol, diwygiodd swyddogion y Fframwaith Perfformiad a Gwerthuso i gefnogi'r model mewnol newydd. Dylai'r fframwaith ganiatáu i'r Cyngor asesu cyfraniad y model mewnol tuag at gyflawni blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac amcanion lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy.

34 Bwriedir i'r fframwaith hefyd alluogi aelodau a'r tîm rheoli model mewnol i asesu perfformiad ac effaith holl weithgareddau'r gwasanaeth hamdden ac i alluogi'r cyhoedd i adrodd ar gynnydd. Yn ogystal, dylai'r fframwaith ddarparu sail ar gyfer rheoli risg strategol, ysgogi gwelliant mewn perfformiad er mwyn gwella darpariaeth integredig a chynllunio strategol a helpu i fireinio a datblygu rhaglenni a gweithgareddau.

35 Mae swyddogion hefyd yn datblygu Fframwaith Mesur Canlyniadau. Y bwriad yw creu fframwaith a fydd yn ymgorffori holl weithgareddau'r model mewnol ac yn adlewyrchu'r hyn y mae'n ei wneud a'r hyn y mae am ei gyflawni. Dywed swyddogion y bydd yn cymryd amser i ddatblygu fframwaith mesur canlyniadau, gan fod angen iddo adlewyrchu uchelgeisiau'r model mewnol yn llawn; cyd-fynd â'r mesurau a sefydlwyd o dan fframweithiau cenedlaethol a lleol ar gyfer cynlluniau lles; a bod yn ddigon cadarn. Hyd yma, mae tîm prosiect wedi nodi arfer gorau o'r sector ehangach ac wedi cwblhau proses gwmpasu gychwynnol o'r dull arfaethedig. Ar adeg y gwaith maes, roedd hyn yn parhau i fod yn waith a oedd yn mynd rhagddo.

# Atodiad 1

## Swyddfa Archwilio Cymru 2015 Cyflawni â llai – argymhellion gwasanaethau hamdden

Argymhellion yn adroddiad 2015 Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Gwella cynllunio strategol mewn gwasanaethau hamdden trwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig gan y cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r cyngor o fewn y gymuned ehangach o ran darpariaeth chwaraeon a hamdden yn yr ardal; a<br>• ystyried y potensial i ddarparu gwasanaethau ar sail ranbarthol. |
| A2 | Cynnal arfarniad o opsiynau i nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth a blaenoriaethau cytunedig y cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried:<br>• argaeledd cyllid cyfalaf a refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i wella cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y cyngor;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden i rôl iechyd cyhoeddus ehangach y cyngor;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• cynaliadwyedd darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A3 | Sicrhau bod perfformiad gwasanaethau hamdden yn cael ei reoli'n effeithiol drwy sefydlu cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gynnwys perfformiad ar draws y cyngor a chyfleusterau penodol a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau/cyfleusterau, amser defnyddio, ac ati; a<br>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd. |
| A4 | Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweiniad corfforaethol ar wasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad i bwyllgor(au) craffu;<br>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau yn gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru